

PAM Y BYDDAI DUW CARIADUS YN CANIATÁU DRYGIONI?

Nodyn i'r siaradwr:

Rhowch atebion y bydd pobl sydd yno am y tro cyntaf yn gallu eu deall. Cryfhewch ffydd Tystion Jehofah sydd efallai wedi pendroni dros y cwestiwn hwn wrth i drasiedi eu taro nhw'n bersonol

MAE DUW YN CASÁU DRYGIONI BYD SATAN (5 mun.)

Yn aml, mae'r rhai sydd wedi cael damweiniau neu ddioddef trosedd, rhyfel, terfysg, a thrychineb, yn gofyn, "Pam?" (*g*-E 11/06 3-9; *bh* pen. 11, par. 1-4)

Ydych chi wedi gofyn pam y byddai Duw cariadus yn caniatáu i bethau ofnadwy ddigwydd?

Mae hyd yn oed gweision ffyddlon Duw wedi pendroni dros y cwestiwn hwnnw [**Darllenwch Habacuc 1:3**]

Mae rhai pobl yn dod i'r casgliad nad oes gan Dduw unrhyw ddiddordeb mewn bodau dynol

Yn ôl y Beibl mae'n gas gan Dduw ddiodefaint ac anghyfiawnder (Bar 2:18; Dia 6:16-19)

Loes calon i Jehofah oedd gweld yr holl ddrygioni yn nyddiau Noa, a dydy ei gasineb tuag at ddrygioni ddim wedi newid (Ge 6:5, 6)

Gallwch deimlo'n hyderus nad yw drygioni byth yn dod o Dduw (Job 34:10; Iag 1:13)

PAM MAE DUW WEDI CANIATÁU DRYGIONI? (20 mun.)

Felly, pam mae Duw cariadus, cyfiawn, a hollalluog yn caniatáu drygioni byd Satan? (*w02*-E 10/1 5-6; *bh* pen. 11, par. 5-21)

Camsyniad cyffredin yw bod Duw ei hun yn rheoli pob sefyllfa

Ond dangosodd Iesu mai Satan y Diafol yw "tywysog y byd hwn," yr un sy'n gyfrifol am ddrygioni (In 14:30; 1In 5:19)

Mae Satan, 'tad pob celwydd,' wedi hudo angylion drwg a phobl hefyd, i ymuno ag ef i wrthryfela yn erbyn Duw (In 8:44; Jwd 6)

Mae Jehofah wedi caniatáu i ddrygioni barhau dros y 6,000 o flynyddoedd diwethaf er mwyn torri'r ddadl gododd Satan unwaith ac am byth (Ge 3:1-6)

Cwestiynodd Satan hawl Jehofah i lywodraethu (*bh* 109-110 par. 10-11)

Ydy bod yn annibynnol ar Dduw wedi dod â gwir ryddid a hapusrwydd parhaol? Nac ydy!

Mae llywodraeth ddynol wedi achosi rhyfel, gormes, dioddefaint, a marwolaeth (Pre 8:9; Rhu 8:22; *w13*-E 9/1 3-5)

Mae Jehofah yn ymwybodol iawn o'n poen ac yn addo dod â rhyddhad inni (Ex 3:7; Esei 49:13)

Gwnaeth Jehofah sicrhau Habacuc drwy egluro y byddai Ef yn cael gwared ar anghyfiawnder a gormes 'yn ei amser' (Hab 2:3-5)

Mae Iesu eisoes wedi dechrau 'dinistrio gweithredoedd y Diafol' (1In 3:8)

Mae gwybod bod diwedd dioddefaint yn agos iawn yn gysur inni! (Sal 37:9-11; 72:12-14; *w13*-E 9/1 6-7; *bh* pen. 3, par. 15-24)

Mae amynedd ein Duw cariadus yn golygu y bydd y rhai "gostyngedig" yn cael eu hachub (Sal 149:4; Jer 29:11, 12; 2Pe 3:9)

MWYNHEWCH Y "BYWYD SYDD YN FYWYD YN WIR," HEB DDIODDEFAINT (5 mun.)

Os ydych chi wedi galw o ddifrif ar Dduw yn gofyn *pam*, yna gwrandewch arno drwy gymryd ei neges o gysur a gobaith i'ch calon [**Darllenwch Datguddiad 21:4; 22:1, 2**]

Bydd unrhyw niwed rydych chi wedi dioddef yn y byd hwn yn cael ei ddad-wneud [**Darllenwch Esei 65:17**]

Yn y cyfamser, rhowch eich gobaith yn Jehofah ac efelychwch amynedd y rhai ffyddlon o'r gorffennol a'r presennol (Hab 3:16-18; Heb 6:9-12)

Wrth ichi ddal ati i gefnogi sofraniaeth Duw, yn fuan iawn, byddwch yn mwynhau'r "bywyd sydd yn fywyd yn wir," heb unrhyw ddrygioni (1Ti 6:19)

[Glynwch yn agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun. Gweler y llyfr *Ministry School*, tt. 52-55, 166-169]

Rhif 187-W 7/13

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2013 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania